# Pwyllgor Rhanbarth Dwyrain De Cymru

## SWERC(2) 01-05 Cofnodion Drafft

Dyddiad: Dydd Gwener 10 Mehefin 2005
Amser: 10:00am tan 12:15pm
Lleoliad: Glan yr Afon, Casnewydd

### Aelodau:

| **Enw** | **Etholaeth** |
|---|---|
| William Graham (Cadeirydd) | Dwyrain De Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Irene James | Islwyn |

### Cyflwynwyr:

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Peter Cole, Cyfarwyddwr y Strategaeth Ranbarthol | Yr Uwch Ranbarth Twristiaeth |
| Jonathan Jones, Prif Weithredwr | Bwrdd Croeso Cymru |
| Patrick Long, Pennaeth Siambr Fasnach Casnewydd a Gwent | Siambr Fasnach Casnewydd a Gwent |
| Karen Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol, Rhanbarth y De-ddwyrain | Awdurdod Datblygu Cymru |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Meriel Singleton | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Cyflwyniadau, ethol cadeirydd newydd ac ymddiheuriadau

1.1 Daeth ymddiheuriadau i law gan Jeff Cuthbert, David Davies, Peter Law, Huw Lewis a Lynne Neagle.

1.2 Gofynnodd Clerc y Pwyllgor i'r Aelodau enwebu Cadeirydd. Gwnaeth Mike German enwebu William Graham a gwnaeth Jocelyn Davies eilio. Ni chafwyd unrhyw enwebiad arall ac etholwyd William Graham yn gadeirydd am flwyddyn.

1.3 Estynnodd y Cadeirydd newydd groeso i'r Gwir Anrhydeddus Faer Casnewydd, y Cynghorydd Ken Critchley, a oedd yn bresennol yn rhinwedd ei rôl fel Cynghorydd.

1.4 Croesawodd Rosemary Butler, yr Aelod Cynulliad lleol, y cyfarfod i'w hetholaeth.

## Eitem 2: 'Creu'r Cysylltiadau' – Uno'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad â Llywodraeth Cynulliad Cymru

2.1 Dywedodd y Cadeirydd mai prif ddiben y cyfarfod oedd trafod 'Creu'r Cysylltiadau' – Uno'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad â Llywodraeth Cynulliad Cymru a chlywed sylwadau pobl Dwyrain De Cymru ar y pwnc.

2.2 Cafwyd cyflwyniadau gan y bobl a'r sefydliadau a nodwyd uchod ac yna cafwyd cyfle i'r cyflwynwyr, yr Aelodau a'r cyhoedd drafod y materion a godwyd.

2.3 Mae'r pwyntiau a godwyd wedi'u crynhoi yn adroddiad y cyfarfod.

## Eitem 3: Lleoliad cyfarfod nesaf Pwyllgor Rhanbarth Dwyrain De Cymru

4.1 Dywedodd y Cadeirydd y câi'r cyfarfod nesaf ei gynnal yn y Fenni ac mai iechyd fyddai'r pwnc trafod.

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Mehefin 2005